

DR MORFYDD E. OWEN A THRADDODIADAU BRYCHEINIOG

Gwenno Angharad Elias

MAE cyhoeddiadau sylweddol Dr Morfydd E. Owen ar Gyfraith Hywel yn tystio i'w chyfraniad aruthrol a'i hymrwymiad i'r maes.¹ Morfydd Owen oedd un o sylfaenwyr Seminar Cyfraith Hywel yn y 1970au, a bu'n Ysgrifennydd i'r Seminar am 36 o flynyddoedd. Cyn y cyfnod clo mawr yn 2020 roedd y Seminar yn parhau i gwrdd ddwywaith y flwyddyn yn y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn Aberystwyth a gobeithir y bydd y traddodiad hwnnw'n parhau ar ôl i gyfyngiadau Covid gael eu codi. Amcanion Seminar Cyfraith Hywel yw dod â'r rhai sydd â diddordeb gweithredol yn y gyfraith ynghyd, annog cyhoeddi ysgrifau a llyfrau yn y maes, a meithrin ymchwil yn y genhedlaeth iau.

Morfydd wnaeth fy nghyflwyno i'r cyfreithiau pan oeddwn yn fyfyrwraig israddedig yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth. Yn ddiweddarach, fel myfyrwraig uwchraddedig, cefais lawer o hwyl yn ei chwmmi yn crwydro Llan-gors, Merthyr Cynog, a Defynnog ar y ffordd yn ôl o seminar ymchwil. Er i Morfydd gael ei magu yn Ivy Cottage ym mhentre' Fochriw mae ganddi gysylltiadau personol gydag ardal Brycheiniog. Roedd teulu ei thad-cu, Mordecai Evans, yn haniu o fferm fynydd yn Nefynnog. Pan oedd Morfydd yn hŷn symudodd ei rhieni i fyw yn agos at Lyn Syfaddan yn Llan-gors, a phriododd hithau a Howard Davies yng Nghapel y Plough yn Aberhonddu. Wrth grwydro Brycheiniog yn ei chwmmi y cafwyd yr ysbrydoliaeth i'r syniad a gyflwynir yn yr ysgrif hon.²

LLYFR CYNOG

Cyfraith Hywel yw'r enw a roddwyd ar y cyfreithiau cynhenid a gadwyd mewn dros ddeugain o lawysgrifau Cymraeg a Lladin sydd yn dyddio o'r cyfnod rhwng c.1250 a c.1550. Mae'r llawysgrifau cyfraith Cymraeg

¹ Gw. llyfryddiaeth Morfydd yn y gyfrol hon.

² Mae'r ysgrif hon yn grynodeb o erthygl a gyhoeddwyd yn Saesneg yn 'Llyfr Cynog of Cyfraith Hywel and St Cynog of Brycheiniog', (2006) 23 *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 27–47.

DR MORFYDD E. OWEN A THRADDODIADAU BRYCHEINIOG

cynharaf yn perthyn i dri grŵp neu ddull: Llyfr Cyfnerth a gysylltir ag ardal y Gororau, Llyfr Blegywryd a gysylltir â'r Deheubarth, a Llyfr Iorwerth a gysylltir â Gwynedd.³ Ym 1632, yn y mynegai i'w ffynonellau yn y *Dictionarium Duplex*, rhestru John Davies o Fallwyd K.H a K.K. Ehanga K.H fel Cyfraith Hywel a K.K fel Cyfraith Cynog. Yn ôl Aled Rhys Wiliam llyfr cyfraith a roddwyd at ei gilydd rywbyrd yn y ddeuddegfed ganrif oedd Llyfr Cynog.⁴ Nid yw wedi goroesi yn ei gyfanrwydd ond mae'n cael ei ddyfynnu mewn llawysgrifau eraill. Er enghraifft, fe'i dyfynnir fel awdurdod ar adnau yn nhestunau Cyfnerth, Blegywryd ac yn y testunau Lladin.

Llyfr Cyfnerth:

Or byd keitwat kyfreitha6l ad6yn da oe warchad6 yn lletrat. A bot yr allwedeu gantha6 ef yn diwall. Aguelet torr ar y ty. llyuyr kynac adyweit bot yn haws ygredu ordygir da ida6 ef gyt ar da arall. adycker yn lletrat yganta6 ef. Ef adyly hagen tygu adynyon yty ganta6 oll yuot ef yn iach orda h6nn6. Or cledir ydayar hagen ydan yty guedy gunel ef ygyfreith y uot yn iach. brenhin bieu dayar ac ny dyly keitwat uot drosti.⁵

Llyfr Blegywryd:

Os keitwat a gyll adneu heb golli y da ehunan, ef a tal y collet oll, o gyfreith. Llyfyr Kynawc a dyweit hagen bot yn haws y gredu ef or dygir y da ef yn lletrat gyt a'r llall, a gwelet torr ar y ty. Ef a dyly hagen tygu, a dynnyon y ty gantaw, y vot ef yn iach o'r da hwnnw. Or cledir y dayar hagen y dan y ty gwedy gwnef ef y gyfreith y vot yn iach, brenhin bieu dayar, ac ny dyly keitwat uot drosti.⁶

Lladin B:

Si depositarius depositum amiserit, rem perditam totaliter reddet. Liber Kenauc dicit quod, si fur domum foderit, et ex ea aliquid abstulerit, custode clavem habente, custos nichil restituet; iuret tamen cum omni sua familia.⁷

³ *WML; LIBleg; LIlor*.

⁴ Aled Rhys Wiliam, *Llyfr Cynog* (Aberystwyth: Pamffledi Cyfraith Hywel, 1990), t. ii; a T.M. Charles-Edwards, 'NLW Peniarth MS 35 (G) and the Textual Tradition of Llyfr Iorwerth', erthygl heb ei chyhoeddi, 15.

⁵ *WML*, t. 63.

⁶ *LIBleg*, t. 46.

⁷ *LTWL*, t. 256.

CYFARWYDD MEWN CYFRAITH

Lladin D:

Si depositarius depositum amiserit, re sua salva, de iure totum amissum reddet. Liber Kynawc dicit quod si fur domum suffoderit et ex ea aliquid abstulerit custode clavem domus habente, de rebus furtim ablatis nichil custos restituet. Iurabit tamen ipse et familia eius tota se sine culpa esse. Insuper, si rem suam amiserit, magis credendum est.⁸

Lladin E:

Si depositarius depositum amiserit, rem perditam totaliter reddat. Liber Kenauc dicit quod, si fur domum foderit, et ex ea aliquid abstulerit, custode clavem habente, custos nichil restituet; iuret tamen cum omni familia sua.⁹

Dyfynnir Llyfr Cynog ar y pwnc hefyd yn llawysgrif *G*, Peniarth 35.¹⁰ Ysgrifennwyd y teitl ‘Cynawg’ ar glawr y llawysgrif mewn llaw fodern gynnar, mwy na thebyg gan William Maurice, Cefn-y-braich, Llansilin. Rhwng 1660 a 1663 casglodd Maurice llawysgrifau Cyfraith Hywel Dda yn ei Ddeddfgrawn neu’r *Corpus Hoelianum* (Wynnstay 37–38). Dyfynnodd llawysgrif *G* o ffolio 1 i 76 yn ei Ddeddfgrawn fel ‘Llyfr Cynog’. Mae llawysgrif *G* yn cynnwys dyfyniadau helaeth o Lyfr Cynog. Ysgrifennwyd y llawysgrif gan ddwy law a ddyddiwyd gan Daniel Huws i hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg. Roedd y ddwy ran gwahanol wedi dod at ei gilydd erbyn tua 1400.¹¹ Mae llawysgrif *G* fel ag y mae heddiw yn cynnwys pum adran wahanol gyda dilyniant naturiol y testunau wedi ei dorri trwy gamleoli’r plygion wrth rwymo’r llawysgrif. Mae’n llawysgrif gyfansawdd gyda chopi o Lyfr Iorwerth yn brif destun. Mae hefyd yn cynnwys traethawd ar fechni (ff. 20–25), copi o Lyfr Cynghawsedd (ff. 52–70), darnau o Lyfr Cynog (ff. 1–19 a 73–76), crynodeb o Lyfr Iorwerth (ff. 26–49 a 77–111), a hefyd y Damweiniau (ff. 112–119).¹² Ar f. 76v ceir y coloffon *Ac yuelly y*

⁸ Ibid, t. 376.

⁹ Ibid, t. 499.

¹⁰ Ceir delweddau digidol o’r llawysgrif yng Nghasgliad Peniarth Llyfrgell Genedlaethol Cymru, <http://hdl.handle.net/10107/4780784>.

¹¹ Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff, 2000), t. 59; *RWMS*.

¹² Aled Rhys Wiliam, ‘Restoration of the Book of Cynog’, (1988) 25 *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 246.

DR MORFYDD E. OWEN A THRADDODIADAU BRYCHEINIOG

teruyna llyuyr kynaboc. Mae nodyn mewn llaw ychydig ddiweddarach¹³ yn y llawysgrif sy'n darllen:

llyma habyll [= 'hawl'] derbyn rwg gr ap ll vychan a Ien ap Ien dd6n arglwyed pen y geli.¹⁴

Dadleuodd Thomas Charles-Edwards mai at Bencelli, Brycheiniog, y cyfeirir yma ac nid at Benygelli yng nghwmwd Ceri, gan nad oedd y lle hwnnw yn ganolfan i unrhyw arglwyddiaeth a fyddai'n caniatáu'r teitl 'arglwydd Penygelli'.¹⁵ Roedd Pencelli yn is-arglwyddiaeth o fewn arglwyddiaeth Brycheiniog ac wedi ei enwi ar ôl castell Pencelli, i'r gogledd-ddwyrain o Lanfeugan. Mae orgraff y darnau yn y llawysgrif y credir iddynt darddu o Lyfr Cynog hefyd yn awgrymu cysylltiad â Brycheiniog. Ym marn Thomas Charles-Edwards nid yw'r orgraff yn perthyn i'r gogledd ac nid yw'n cynnwys rhai o'r nodweddion sy'n gyffredin i lawysgrifau o'r de, e.e. y defnydd o *wh-* yn lle *chw-*.¹⁶

Ail-greodd Aled Rhys Wiliam destun Llyfr Cynog gan ddefnyddio llawysgrif *G* fel sail.¹⁷ O edrych ar y testun hwnnw gwelir rhai elfennau sydd efallai'n awgrymu perthynas â'r eglwys, e.e. y dyfyniadau o Fuchedd y Tadau sy'n tarddu o'r *Collectio Canonum Hibernensis*, sef canonau eglwysig Gwyddelig o'r wythfed ganrif:

Yn y llyuyr a elwir Buched y Tadeu y mae yn yscriuenedic ... Pob adneu a dylir y talu onyt adneu eglóys. Lle glendit yó yr eglóys, a mam pob dyn, a gwahardedic yó cadó adneu yndi canys ty gwedi yó, ac nyt ty lladron.¹⁸

CYNOG

Tybed felly pwy oedd y Cynog hwn a roddodd ei enw i'r llyfr cyfraith? Un peth sy'n gwneud Cynog yn wahanol i'r rhan fwyaf o'r gwŷr eraill y

¹³ Yn y cofnod ar *G* yn *RWMS* nodir mai Gruffudd ap Llywelyn Fychan piau'r llaw – llaw o'r 14/15g., 'his comments suggestive of a lawyer despite the childlike script'.

¹⁴ Peniarth 35, f. 55^v

¹⁵ Charles-Edwards, 'NLW Peniarth MS 35 (G)', 7.

¹⁶ *Ibid.*, 8.

¹⁷ Wiliam, *Llyfr Cynog*.

¹⁸ *Ibid.*, tt. 31–2.

CYFARWYDD MEWN CYFRAITH

priodolir testunau cyfraith iddynt yw nad oes ganddo enw patronymig. Nid yw'n dwyn enw ei dad, fel Hywel ap Cadell, Cyfnerth ap Morgenau, Iorwerth ap Madog, Gwair ap Rhufawn, Goronwy ap Moriddig a Chynyr ap Cadwgan sy'n cael eu henwi yn y llyfrau cyfraith.

Yn y *Welsh Genealogies* ar gyfer y cyfnod 300 O.C. hyd 1400 O.C. dwywaith yn unig y nodir enw Cynog: Cynog Mawr ab Iorwerth Hirflawdd c.800 sylfaenydd llinach brenhinol Arwystli a Chynog Sant o Frycheiniog o'r bumed ganrif.¹⁹ Yn ôl Sieffre o Fynwy roedd gŵr o'r enw Cynog wedi bod yn Esgob Llanbadarn cyn olynu Dewi Sant fel Archesgob Tyddewi.²⁰ Enwir Esgob Cynog hefyd fel olynnydd Dewi Sant gan Gerallt Gymro. Fodd bynnag, yn ôl pob golwg mae cofnod Sieffre a rhestr Gerallt o archesgobion honedig Tyddewi yn ffug-hanesyddol; ar ben hynny, ni wyddys pa mor bell, os o gwbl, y gwnaethant dynnu ar draddodiadau a oedd yn bodoli eisoes na pha mor eang oedd y traddodiadau hynny yn y ddeuddegfed ganrif. Yn draddodiadol, nid yw seintiau fel arfer yn dwyn enw patronymig, ac o ystyried cysylltiad y testun â Brycheiniog mae'n debyg mai Cynog Sant yw Cynog y llyfrau cyfraith.

Roedd Cynog Sant yn fab i'r Brenin Brychan Brycheiniog. Cofnodir chwedl am Cynog mewn traethawd o'r enw *De Situ Brecheniauc* (DSB) a gedwir yn llawysgrif Cotton Vespasian A.xiv. c.1200. Yn ôl DSB treisiodd Brychan ferch brenin Powys, Banadlwedd, ac o ganlyniad ganwyd Cynog. Testun Lladin arall sy'n adrodd hanes teulu Brychan yw *Cognacio Brychan* (CB). Trawsysgrifiwyd y testun yn yr unfed ganrif ar bymtheg o lawysgrif gynharach sydd bellach ar goll. Mae DSB a CB yn adrodd hanes sefydlu'r deyrnas ym Mrycheiniog ac yn rhoi pwyslais ar Brychan a Chynog, rhestr beddau, ach Cynog Sant a rhestrau o blant Brychan. Dadleuodd Charles Thomas fod cynseiliau'r ddwy ddogfen yn tarddu o gyfnod cyn-Normanaid ac iddynt gael eu cartrefu ar un adeg yn eglwys fynachaid Llan-gors.²¹ Crannog Llan-gors, a saerniwyd rhywbryd yn y nawfed neu'r ddegfed ganrif,

¹⁹ P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 300 – 1400* (Cardiff, 1974).

²⁰ N. Wright (gol.), *The Historia Regum Britannie of Geoffrey of Monmouth, I: Bern, Burgerbibliothek, MS 568* (Cambridge, 1985), t. 132 (§179).

²¹ Charles Thomas, *And Shall These Mute Stones Speak?: Post-Roman Inscriptions in Western Britain* (Cardiff, 1994), t. 131.

DR MORFYDD E. OWEN A THRADDODIADAU BRYCHEINIOG

yn ôl pob tebyg, oedd safle llys brenin Brycheiniog.²² Ymhlith y pethau a ddarganfuwyd wrth gloddio yno roedd darn o liain a allai fod yn perthyn i greirfa.²³

Mae DSB a CB yn sôn bod Brychan wedi tynnu torch oddi ar ei fraich a'i rhoi i Gynog pan gafodd ei eni. Disgrifiodd Gerallt Gymro dorch Cynog Sant:

Canys o ran pwysau a natur, yn ogystal â lliw, y mae'n debyg iawn i aur; cysylltwyd hi ynghyd yn gywrain o bedwar darn, fel y mae'n eglur oddi wrth yr holltiadau, wedi eu hasio wrth ei gilydd i ffurfio cylch, a chaeir hi yn y canol â delw pen ci gyda'r dannedd ysgyrnyclyd yn ymwithio allan fry ac obry. Synia'r brodorion amdani fel crair o rinwedd effeithiol iawn, yn gymaint felly ag na ryfyga neb dyngu anudon pan roir hon gerbron iddo.²⁴

Aeth Gerallt Gymro ymlaen i sôn am ei heffeithiolrwydd wrth dyngu llwon. Gallai tyngu llw fod yn weithred gyfreithiol yn ogystal â chrefyddol. Chwaraeai'r weithred hon ran bwysig yn y gyfraith ganoloesol Gymreig. Aeth yr Arglwydd Rhys â thorch Cynog i gastell Dinefwr. Credai Gerallt Gymro iddo haeddu cael ei garcharu am wneud hynny ac mai Duw'n dial arno oedd wrth wraidd ei garchariad gan ei feibion ym 1194.²⁵

Lleolir y rhan fwyaf o'r cysegriadau i Gynog ym Mrycheiniog mewn eglwysi fel rhai Defynnog, Merthyr Cynog, Penderyn, Ystradgynlais, y Batel, a Llangynog. Y chwedl yw i Gynog gael ei ladd gan y Sacsoniaid ar Y Fan Oleu ym mhlwyf Merthyr Cynog ble yr adeiladwyd eglwys dros ei fedd. Gelwir eglwysi o'r fath yn y cyfnod cynnar yn *martyria* neu *memoriae martyrum*,²⁶ a chredid y gallai merthyron glywed pobl yn galw arnynt pe caent eu hannerch o'r fan lle roeddent wedi eu claddu. Arweiniai'r galw yn

²² Am y grannog gw. Alan Lane a Mark Redknap, *Llangorse Crannog: The Excavation of an Early Medieval Royal Site in the Kingdom of Brycheiniog* (Oxford, 2019).

²³ Mark Redknap, *The Christian Celts, Treasures of Late Celtic Wales* (Caerdydd, 1991), tt. 16, 24.

²⁴ Thomas Jones (gol.), *Gerallt Gymro Hanes y Daith trwy Gymru* (Caerdydd, 1938), t. 24.

²⁵ *Ibid.*, t. 114.

²⁶ Gw. hefyd David N. Parsons, *Martyrs and Memorials: Merthyr Place-Names and the Church in Early Wales* (Aberystwyth, 2013), tt. 68–9.

CYFARWYDD MEWN CYFRAITH

aml at ymbilio ar y saint. Gwerth eglwys Merthyr Cynog yn y *Taxatio* ym 1291 oedd y swm sylweddol o ddeg punt ar hugain ac adlewyrcha hyn statws mawreddog yr eglwys yn y cyfnod hwnnw.²⁷ Mae ffiniau'r fynwent bron yn hollol grwn a thystia hyn i'w seiliau cynnar. Gellir dyddio corff yr eglwys bresennol i'r bedwaredd ganrif ar ddeg,²⁸ er i groesau o gyfnod cynharach gael eu corffori yn yr adeilad. Merthyr Cynog oedd canolbwynt cwlt Cynog. Yno roedd ei feddrod ac efallai mai hon oedd y llan gyntaf i gael ei chysegru iddo. Roedd Merthyr Cynog yn un o fam eglwysi Cymru ac efallai mai mewn canolfan yn gysylltiedig ag eglwys Merthyr Cynog y cyfansoddwyd Llyfr Cynog.

Adlewyrchir pwysigrwydd cwlt Cynog yng ngwaith beirdd diweddarach. Canodd Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys (Hywel Dafi), bardd o'r bymthegfed ganrif, gywydd o foliant i Gynog. Mae'r cywydd yn sôn am gysylltiadau Cynog ag Iwerddon, yn adrodd sut y gorchfygodd gawr yn ardal Caerwedros, yn sôn am ryfeddod ei dorch, a'r wyrth a ddigwyddodd pan dorrwyd ei ben:

Ban dorred dy ben dewrwych
Y gwnaeth gwyrth â gwyniaith gwych:
Cerddaist a'th ben wrth dennyn
Wrth dy gorff o wyrth Duw gwyn.
Ni allai'r byd, hyfryd hwyl,
Ddwyn d'enaïd, ddyn da annwyl,
Hyd pan gad, daliad dilys,
Dwyn dy grair o i dan dy grys.

Penrhaith rhag poenau yrhawg
Ywch, annwyl, ym Mrycheiniawg,
A'i phennaeth, dofraeth wyd, wr,
A'i phen a'i hamddiffynnwr.
Amddiffyn wlad y tad tau,
Iaith o Dduw, â'th weddïau.
Bydd feddyg i'r gynfigen,
Bwrw o'n mysg ein bâr, Amen.

²⁷ J.E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest I* (London, 1911), t. 272, n. 248.

²⁸ Gw. <https://www.cpat.org.uk/ycom/breck/merthycynog.pdf>.

DR MORFYDD E. OWEN A THRADDODIADAU BRYCHEINIOG

Galw dy hun yn ein gwlad heddi,
Ac eiriol am drugaredd.²⁹

Mae gan Dafydd Epynt hefyd gywydd i'r sant sy'n sôn am straeon ychydig yn wahanol i rai Hywel Dafi, a rhai ohonynt yn unigryw:

Dwyn ei lythr dan law athro
Â bwa'n fab a wnâi fo;
Lladd a wnaeth saeth y saethydd
Leisiad a hwyad a hydd.
Ni allai bîn a llaw byth
Enwi hael un wehelyth.³⁰

Cyfeiriodd Huw Cae Llwyd, bardd arall o'r bymthegfed ganrif, hefyd at Gynog. Canodd 'Foliant i Seintiau Brycheiniog' a Chynog yw'r sant cyntaf i gael ei enwi. Efallai fod hyn yn adlewyrchu diddordeb newydd yng nghwlt y sant yn y cyfnod hwnnw. Yn y bymthegfed ganrif hefyd dyfynnwyd darnau o Lyfr Cynog yn llawysgrifau cyfraith *Q*, Wynnstay 36, *F*, Peniarth 34, *Mor*, Peniarth 36C, a *Z*, Peniarth 259B.

Pam felly y cafodd llyfr cyfraith ei enwi ar ôl prif sant Brycheiniog? Arglwyddiaeth Normanaidd oedd Brycheiniog yn mynd yn ôl i gyfnod Bernard de Neufmarché yn yr unfed ganrif ar ddeg. Awgrymodd Aled Rhys Wiliam mai'n gynnar yn y ddeuddegfed ganrif y daeth Llyfr Cynog at ei gilydd ac mae'n bosibl y gwelwyd cynnydd yn y diddordeb mewn seintiau lleol bryd hynny yn wyneb y goresgyniad Normanaidd. Ymddiddorai'r Normaniaid mewn cyltiau seintiau a lle byddai'r diwylliant Normanaidd a'r diwylliant brodorol yn gorgyffwrdd gellir dychmygu y byddai hynny'n arwain at ymchwili i gefndir hanesyddol ardal arbennig. Awgryma Kathleen Hughes mai yn erbyn cefndir o dyrchu ac ymchwilio lled-hanesyddol y lluniwyd llawysgrif Cotton Vespasian A.xiv (a DSB).³¹ Efallai fod hyn hefyd yn wir am Lyfr Cynog.

²⁹ A. Cynfael Lake (gol.), *Gwaith Hywel Dafi II* (Aberystwyth, 2015), tt. 460–1.

³⁰ Owen Thomas (gol.), *Gwaith Dafydd Epynt*, (Aberystwyth, 2002), tt. 30–1. Gw. yn ogystal y nodiadau testunol, tt. 88–9.

³¹ Kathleen Hughes, 'British Museum MS. Cotton Vespasian A. XIV ('Vitae Sanctorum Wallensium') its purpose and provenance', *Studies in the Early British Church* (Cambridge, 1958), t. 184.

CYFARWYDD MEWN CYFRAITH

Dadleuodd Morfydd Owen a Nerys Ann Jones fod cerddi'r Gogynfeirdd i saint megis Dewi, Tysilio a Chadfan, yn ymgais i amddiffyn yr eglwys Gymreig rhag urddau newydd mynachaid o'r cyfandir, ac yn arbennig rhag y Sistersiaid.³² Gallai dyfynnu Llyfr Cynog yn y gwahanol lyfrau cyfraith fod yn rhan o'r ymgais hon ac yn fodd o apelio at ffynhonnell draddodiadol ac eglwysig a gysylltid ag arwyr Cristnogol cynnar yr ardal.

Roedd gan yr eglwys ran bwysig i'w chwarae mewn cynhyrchu llawysgrifau, ac weithiau, cysylltid llawysgrifau a gynhwysai ddogfennau cyfreithiol ag enwau saint, e.e. gelwir Llyfr Llandaf yn Llyfr Teilo oherwydd ei gysylltiad â Llandaf, eglwys Teilo. Cofnodwyd 'Braint Teilo', sef catalog o'r meysydd cyfraith seciwlar a berthynai i lys yr eglwys yn Llyfr Llandaf. Awgryma Buchedd Cadog Sant, dogfen o'r unfed ganrif ar ddeg a darddai o Llandaf, fodolaeth Llyfr Cadog. Yn y Fuchedd dywedir y dylid barnu troseddau yn erbyn clerigwyr eglwys Llandaf yn ôl *liber iudicallis* Cadog. Os priodolwyd llyfr eglwysig a chyfreithiol i Gadog, nai Cynog, yna hawdd y gellir credu i hynny hefyd fod yn wir am Gynog ei hunan.

Cyfansoddwyd Llyfr Cynog yn y ddeuddegfed ganrif a chafodd darnau ohono eu copïo yn llawysgrif G ym Mrycheiniog yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Dengys hyn fod y gyfraith Gymreig yn dal yn berthnasol yn arglwyddiaeth Brycheiniog ddwy ganrif yn ddiweddarach. Mae llawysgrif Q, Wynnstey 36 o'r bymthegfed ganrif hefyd yn dyfynnu darnau o Lyfr Cynog ac mae'n cynnwys cwynion sy'n cyfeirio at y Cantref Bychan a oedd ar y ffin ag arglwyddiaeth Brycheiniog.³³ Efallai hefyd fod cysylltiad rhwng llawysgrif cyfraith U, Peniarth 37 o hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg â Brycheiniog, gan fod y llawysgrif yn yr un llaw â'r rhan o lawysgrif G sy'n cyfeirio at Lyfr Cynog. Er hynny, mae'n bosibl fod llawysgrif U wedi symud i un o arglwyddiaethau'r gogledd-ddwyrain erbyn ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg.³⁴

³² M.E. Owen a Nerys Ann Jones, 'Twelfth-Century Welsh hagiography: the Gogynfeirdd Poems to Saints', *Celtic Hagiography and Saints' Cults*, (gol.) Jane Cartwright (Cardiff, 2003), t. 66.

³³ Mae trawsgrifiad o Q gan Sara Elin Roberts i'w gael yma: http://www.cyfraith-hywel.org.uk/uploads/wynnstey_36.pdf.

³⁴ Cafodd y tudalennau gwag ar ddiwedd U eu llenwi gan law tebyg iawn i law Peniarth 164 (H). Cafodd H ei chyfansoddi gan weinyddwr yn un o arglwyddiaethau'r gogledd-ddwyrain yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg. Gw.

DR MORFYDD E. OWEN A THRADDODIADAU BRYCHEINIOG

Roedd Cyfraith Hywel yn gallu parhau i ffynnu yn arglwyddiaethau'r Mers gan fod hynny weithiau o fudd i'r arglwyddi. Roedd arglwyddiaethau'r Mers yn rhydd o gyfraith y Goron ac roedd pob arglwydd yn dilyn ei gyfraith ei hun.³⁵ Yng ngeiriau R. R. Davies: 'the attitude of most Marcher lords was one of profiteering tolerance'.³⁶ Tynnodd Sara Elin Roberts sylw at lawysgrif Peniarth 67 sy'n cynnwys barddoniaeth yn llaw Hywel Dafï ond hefyd destun cyfreithiol sy'n gyfuniad o Gyfraith Hywel a chyfraith Seisnig.³⁷

Llyma *ddadl croes* am dir a dayar herwydd y ddefod yssydd y myrcheiniog arveredic.³⁸

Mae'r testun hwnnw'n dangos sut oedd Cyfraith Hywel yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â chyfraith Seisnig ym Mrycheiniog yn y bymthegfed ganrif. Mae'r testunau hyn i gyd yn rhoi cipolwg gwerthfawr i ni o draddodiadau cyfreithiol Brycheiniog yn yr Oesoedd Canol. Diolch yn gynnes i Morfydd am fy nghyflwyno i'r testunau a'r ardal ugain mlynedd yn ôl.

Roedd gan dad-cu Morfydd bersonoliaeth gref. Roedd ganddo swydd gyfrifol yn y pwll glo a mynnodd ei addysgu ei hunan cyn mynd ymlaen i ennill gradd mewn Peirianeg Mwyngloddio. Prynodd bianco 'baby grand' ac aeth i Lundain i'w nôl o'r ffatri a dod â hi yr holl ffordd gartref ar y trê. Trwyddo ef y cafodd Morfydd ei chysylltiad cyntaf gydag ardal Brycheiniog.

Gwenno Angharad Elias, *Yr Ail Lyfr Du o'r Waun. Golygiad Beirniadol ac Eglurhaol o Lsgr. Peniarth 164* (H) (2 gyf. Caergrawnt, 2018).

³⁵ Gw. R.R. Davies 'The Law of the March', (1970–1) 5 *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 1–30. Ar y Mers gw. ymhellach R.R. Davies, *Lordship and Society in the March of Wales, 1282–1400* (Oxford, 1978); K. Mann, 'The March of Wales: a question of terminology', (1996–7) 18 *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 1–13; W. Rees, *South Wales and the March 1284–1415: A Social and Agrarian Study* (Oxford, 1924). Hefyd M. Lieberman, *The March of Wales, 1067–1300* (Cardiff, 2008); idem, *The Medieval March of Wales: The Creation and Perception of a Frontier, 1066–1283* (Cambridge, 2010).

³⁶ Davies, *Lordship and Society*, t. 162.

³⁷ Sara Elin Roberts, 'Legal practice in fifteenth-century Brycheiniog', (2001) 35 *Studia Celtica*, 307–23.

³⁸ *Ibid.*, 321. Peniarth 67, f. 97.

CYFARWYDD MEWN CYFRAITH

Rwy'n siŵr ei fod wedi adrodd dipyn o hanes Brycheiniog iddi'n blentyn ac i'r chwedlau am Lyn Syfaddan wneud argraff arni. Morfydd oedd kannwyll llygaid ei thad-cu ac yntau oedd y dylanwad mwyaf arni'n ifanc, a lluniodd dipyn ar ei chymeriad.³⁹ Dylanwadodd ei chymeriad hithau ar do ifanc Seminar Cyfraith Hywel. Mae hi wedi bod yn fentor nodedig ac yn gyfaill triw i lawer ohonom. Mawr yw ein dyled iddi.

³⁹ Diolch i Bríd a Luned Davies am rannu hanes y teulu.